# Atodiad D: ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

## The Regulated Services (Providers of Restricted Children's Services) (Transitional Restrictions) (Wales) Regulations 2026

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gynhaliwyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, cyfeiriad e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

   Cyfeirnod: 17 Hydref 2026.

2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026

   Nid yw'r Rheoliadau yn gweithredu amcanion *Cymraeg 2050* na'r rhaglen waith gysylltiedig yn uniongyrchol. Maent yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â chyfyngiadau ar ehangu darparwyr presennol gwasanaethau cartref plant a gwasanaethau maethu yn y dyfodol.

   Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn rhan o weithrediad ehangach y darpariaethau dileu elw o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025. Mae'r rhaglen ehangach honno'n cynnwys cynllunio digonolrwydd awdurdodau lleol blynyddol, sy'n darparu mecanwaith ar gyfer ystyried darpariaeth Gymraeg, anghenion diwylliannol ac ieithyddol plant a chapasiti gweithlu perthnasol.

   Felly, gall y Rheoliadau wneud cyfraniad anuniongyrchol cyfyngedig at amcan *Cymraeg 2050* o alluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, i'r graddau y mae'r trefniadau gweithredu ehangach yn cefnogi cynllunio a

datblygu darpariaeth addas a all ddiwallu anghenion Cymraeg plant. Mae'r dyletswyddau statudol presennol a'r disgwyliadau sefydledig sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys y Cynnig Rhagweithiol yn parhau i fod yn ddigyfnewid.

## 3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

- Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Mae'r Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â chyfyngiadau ar ehangu darparwyr presennol gwasanaethau cartref plant a gwasanaethau maethu yn y dyfodol yn unig. Ni fyddant yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr roi'r gorau i weithredu, effeithio ar leoliadau presennol neu ofalwyr maeth cymeradwy, neu leihau capasiti cofrestredig presennol. Felly, ni ddisgwylir iddynt gael unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol, cadarnhaol neu negyddol, ar siaradwyr Cymraeg na'r Gymraeg.

Ni ddisgwylir unrhyw effaith uniongyrchol benodol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith, addysg cyfrwng Cymraeg na dysgwyr Cymraeg. Nid yw'r Rheoliadau yn newid dyletswyddau statudol presennol na disgwyliadau sefydledig mewn perthynas â mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg.

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi gweithredu'r darpariaethau dileu elw o dan Ddeddf 2025 yn ehangach. Mae'r rhaglen ehangach honno yn cynnwys cynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol blynyddol sy'n darparu mecanwaith ar gyfer ystyried darpariaeth Gymraeg, anghenion diwylliannol ac ieithyddol plant a chapasiti gweithlu perthnasol.

Risg anuniongyrchol bosibl yw y gallai cyfyngu ar ehangu'r ddarpariaeth er elw bresennol effeithio ar argaeledd lleoliadau a all ddiwallu anghenion Cymraeg plant os na ddatblygir digon o ddarpariaeth nid-er-elw briodol mewn modd amserol. Bydd y risg hon yn cael ei rheoli drwy gynllunio blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd, monitro parhaus a gweithgarwch gweithredu ehangach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth nid-er-elw addas.

Bydd ymgysylltu a chyfathrebu ehangach sy'n ymwneud â gweithredu yn parhau i gael eu hystyried drwy'r Bwrdd Gweithredu Gofal Plant Nid-er-elw newydd, ei ffrydiau gwaith ategol a'r Gweithgor Cyfathrebu Dileu Elw. Bydd deunyddiau cyfathrebu priodol ar gael yn ddwyieithog.

Ni fydd rhwymedigaethau cyfredol darparwyr gwasanaethau i ddarparu Cynnig Rhagweithiol i ddiwallu anghenion unigolion o ran y Gymraeg yn newid. Bydd darparwyr yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a'u bod yn hygyrch yn y ddwy iaith, yn unol â'u datganiad o ddiben a Safonau'r Gymraeg ac yn unol hefyd â strategaeth *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.